




## Croeso i dymor yr haf

Mae eleni eto yn gwibio heibio, ac rydyn ni wedi cychwyn ein tymor olaf yn barod.
Pedair wythnos yn unig yw'r hanner tymor hwn, gyda saith wythnos yn yr ail hanner.
Croeso arbennig i'r disgyblion newydd sydd wedi cychwyn yn y prynhawniau yn y Meithrin.

Yn ystod ein Gwasanaeth Ysgol ddydd Mercher wnes i sôn am bwysigrwydd cadw'n ddiogel yn yr haul. A wnewch chi sicrhau fod gan eich plentyn ddillad addas, potel o ddŵr, het haul ac eli haul os gwelwch yn dda.

## *Welcome to the Summer Term*

*This year is again flying by, and we have already started our final school term.*
*This half term is four weeks long, with seven weeks in the second half.*
*A special welcome to the new pupils who have started in the afternoons at the Nursery.*

*During our School Assembly on Wednesday, I talked about the importance of staying safe in the sun. Please make sure your child has suitable clothing, a bottle of water, a sun hat and sun cream.*

---



## Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Mae aelodau'r Gymdeithas yn brysur yn paratoi digwyddiadau'r tymor.
Yn gyntaf mi fyddant yn gwerthu hufen iâ wrth giât yr ysgol ar ddiwedd y dydd ar rai prynhawniau Gwener pan fo'r tywydd yn braf. Bydd hyn yn digwydd yn gyntaf ddydd Gwener nesaf y 9fed o Fai. Croeso i chi ddod ag arian parod neu dalu â cherdyn.




Yn ail, yn dilyn llwyddiant y Noson Ffilm y tymor diwethaf, mi fydd yna gyfle eto i fwynhau, ond y tro hwn mi fydd y Meithrin, Derbyn, Bl.1 a Bl.2 ar brynhawn Iau y 15fed o Fai; yna bl.3,4,5a6 ar brynhawn Gwener yr 16eg o Fai. Bydd y digwyddiad yn cychwyn yn syth ar ddiwedd y dydd ar y ddau ddiwrnod, gyda'r angen am rieni yn gwmni i'r rhai bach ar ddydd Iau yn unig. Am fwy o fanylion gweler y poster ar ddiwedd y llythyr.

## *Parents and Teachers Association*

*The members of the Parents and Teachers Association are busy preparing the term's events. Firstly they will sell ice cream at the school gate at the end of the day on some Friday afternoons when the weather is nice. This will first happen next Friday on the 9th of May. You are welcome to bring cash or pay by card.*

*Secondly, following the success of the Film Night last term, there will be another opportunity to enjoy, but this time it will be the Meithrin, Reception, Year 1 and Year 2 on Thursday afternoon the 15th of May; then yrs 3,4,5 and 6 on Friday afternoon the 16th of May. The event will start immediately at the end of the day on both days, with the need for parents to accompany the little ones on Thursday only. For more details see the poster at the end of this letter.*

---



## Gŵyl Gynradd yr Urdd - 🖰 dolen

Cynhelir yr Ŵyl Gynradd ar Gaeau Blaendolau ddydd Sadwrn wythnos nesaf, sef y 10fed o Fai. Pob hwyl i'r tîm pêl-droed sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol, ac mae croeso cynnes i bawb o fl.3-6 i ymuno yn y rhedeg traws gwlad a fydd yn cychwyn am 2:15yp Os ydych am redeg, dewch i gasglu crys-t rhedeg yr ysgol gen i ddydd Gwener.

## *Urdd Primary Festival -* 🖰 link

*The Primary Festival will be held on Blaendolau Fields on Saturday next week, the 10th of May. Good luck to the football team who have reached the finals, and everyone from years 3-6 is welcome to join in the cross country run which will start at 2:15pm If you want to run, come and collect the school running t-shirt from me on Friday.*

## Prynu tocynnau – gostyngiad heddiw!

Bydd yr ysgol yn prynu tocynnau mynediad i'r plant, ond os ydych chi yn mynd at i brynu tocynnau teulu (sy'n rhatach) rhowch wybod i ni. Mae'r tocynnau ar wefan yr Urdd yn rhatach hyd at heddiw, felly ewch ati yn syth!

Tocynnau | Urdd Gobaith Cymru

**Dydd Llun** 26/05/2025
8:00 Llefaru Unigol bl.5a6
9:05 Dawns Werin bl.4
10:00 Cân Actol
13:30 Perfformio Golygfa
14:05 Unawd Chwythbrennau
14:45 Cerddorfa

**Dydd Mawrth** 27/05/2025
10:50 Grŵp Dawnsio Aml-gyfrwng
16:35 Dawnsio Hip-Hop ayb Unigol

**Dydd Mercher** 28/05/2025
9:15 Llefaru Unigol bl.3a4 (D)

Amserlen_2025_ir_wefan_1.pdf

## *Entry tickets – discount today!*

*The school will buy entry tickets for the children, but if you are buying family tickets (which are cheaper) please let us know.*
*The tickets on the Urdd website are cheaper until the end of today, so be quick!*

*Tickets | Urdd Gobaith Cymru*

***Monday** 26/05/2025*
*8:00 Individual Recitation yrs.5&6*
*9:05 Folk Dancing yr.4*
*10:00 Cân Actol (Action Song)*
*13:30 Performing a Scene*
*14:05 Woodwind Solo*
*14:45 Orchestra*

***Tuesday** 27/05/2025*
*10:50 Multi-Media Dance Group*
*16:35 Hip-Hop etc Individual Dance*

***Wednesday** 28/05/2025*
*9:15 Individual Recitation yrs.3&4 (D)*

*Amserlen_2025_ir_wefan_1.pdf*

## Lluniau Llangrannog

Fel y gwyddoch, bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 i Wersyll yr Urdd Llangrannog ar daith breswyl cyn y Pasg. Os hoffech weld lluniau o'r daith, ewch i ffolder Flickr i'w gweld!

Llangrannog 2025 | Flickr

## *Llangrannog photos*

*As you know, year 5 and 6 pupils went to Urdd Llangrannog Camp on a residential trip before Easter. If you would like to see photos from the trip, go to the Flickr folder to see them!*

Llangrannog 2025 | Flickr

## Ailgylchu dillad – Bag2School

Byddwn yn dosbarthu bagiau ailgylchu dillad yn ystod yr wythnos nesaf. Byddwch yn gyfarwydd â'r drefn erbyn hyn. Llenwch y bagiau a'u dychwelyd i'r Prif fynedfa erbyn y dyddiad casglu os gwelwch yn dda, sef dydd Mawrth yr 20fed o Fai. Bydd y bagiau yn cael pwyso a bydd yr ysgol yn derbyn arian amdanynt. Gwyliwch y fideo hon i ddysgu mwy am Bag2School.

## *Clothes recycling – Bag2School*

*We will be distributing clothing recycling bags during the next week. You will be familiar with the procedure by now. Please fill the bags and return them to the Main Entrance by the collection date, Tuesday the 20th of May. The bags will be weighed and the school will receive money for them. Watch this video to learn more about Bag2School.*



## Trefniadau mis Medi

Er gwybodaeth, rydym wedi dechrau trafod trefniadau dosbarthiadau mis Medi fel staff. Byddwn yn cyfathrebu'r wybodaeth gyda chi mewn da bryd wrth baratoi at y flwyddyn ysgol nesaf.

## *September arrangements*

*For your information, we have started to discuss the arrangements for the September classes as staff. We will communicate the information with you in good time in preparation for the next school year.*



## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

NODWCH FOD DIM CLWB AR ÔL YSGOL AR DDYDD GWENER OLA'R HANNER TYMOR HWN (MAI 23ain)

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar*
*A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

*PLEASE NOTE THERE IS NO AFTER SCHOOL CLUB ON THE LAST FRIDAY OF THIS HALF TERM (MAY 23rd)*

**Dyddiadau pwysig Tymor yr haf:**

- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd : Mai 26 – 30ain 2025
- Tynnu lluniau dosbarthiadau : Mehefin 11eg
- Mabolgampau Ysgol : Mehefin 19eg
- H.M.S : Mehefin 27ain
- Barbeciw/Gŵyl haf y G.Rh.A : Gorffennaf 17eg
- Diwrnod ola'r tymor : Gorffennaf 18fed

***Summer term important dates:***

- *Urdd National Eisteddfod : May 26 – 30th*
- *Class photographs : June 11th*
- *School Sports Day : June 19th*
- *I.N.S.E.T Day : June 27th*
- *PTA Barbeque/Summer Festival : July 17th*
- *Last day of term : July 18th*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**02/05/2025**
www.ysgolgymraeg.cymru















***Girls For Goals (4-7yrs)***
*A fun introduction to football for girls aged 4-7yrs old. Tuesday's, 4:15-5:00pm at Aberystwyth Town FC. There is a special offer on this session - £5pp for the whole block! Book here - Book - BMO Coaching*

***Girls For Goals (8-12yrs) / ATWFC U10's***
*Fun, engaging session open to all girls aged 8-12yrs. Monday's 5:00-6:30pm t Aberystwyth Town FCThis is also the ATWFC U10's team who play in the Aberystwyth Junior League. (Please note - you do not have to sign to ATWFC to join this session, it is open to all) Book here - Book - BMO Coaching*